Walter Cradoc, ?1610–59
Pregethwr, diwinydd a Phiwritan

'It is one of my firmest principles, and by God's grace shall ever be my practice to make union and communion with God my main work, to studie peace with all men; to Love, Honour, Receive Saints qua Saints; to receive, I say, those whom Christ hath received.'

Dyfyniad o gyflwyniad Walter Cradoc cyn pregethu i'r Senedd ym 1646.

Ychydig o wybodaeth sydd gennym am ddyddiau cynnar Walter Cradoc. Yn ôl traddodiad cafodd ei eni a'i fagu yn Nhrefela, Llangwm, Gwent. Cafodd dröedigaeth o dan ddylanwad William Wroth a dysgodd am syniadaeth Biwritanaidd wrth draed William Erbury. Ymddengys ei fod o deulu cefnog gan iddo etifeddu ystad gwerth £601 y flwyddyn a chredir iddo dderbyn peth addysg yn Rhydychen. Penodwyd ef yn gurad Llanbedr-ar-Elái ac yna'n gurad i William Erbury yn eglwys y Santes Fair, Caerdydd. Yno ciciodd yn erbyn y tresi a phechu yn erbyn yr esgob a thynnwyd ei drwydded i bregethu yn ôl. Yn sgil hynny symudodd i Wrecsam ym 1634 lle'r oedd cynulleidfa o Biwritaniaid yn cyfarfod.

Yn yr un flwyddyn fe ddaeth Morgan Llwyd i'r dref honno i dderbyn addysg yn yr ysgol ramadeg. Yr oedd Wrecsam ar y pryd yn dref oleuedig, a Phiwritaniaeth wedi bwrw ei gwreiddiau yno gan fod nifer o deuluoedd dylanwadol yr ardal yn bleidiol i'r diwygwyr. Tra oedd Cradoc yno datblygodd cyfeillgarwch rhyngddo a Catherine Langford o deulu adnabyddus Trefalun, Gresffordd, a daeth yn wraig iddo'n ddiweddarach. Cawsant ddwy o ferched, sef Eunice a Lois. Yn fuan iawn aeth sôn am bregethu Cradoc ar led trwy'r ardal honno a thyrrai pobl o bell ac agos i wrando arno, yn enwedig ar ddiwrnod marchnad. Bu mor ddylanwadol am gyfnod fel y gelwid Piwritaniaid y gogledd wrth yr enw Cradociaid. Fel pregethwr y cofir ef yn bennaf, a chyhoeddwyd cyfrolau o'i bregethau Saesneg.

Braidd yn niwlog yw ei symudiadau yn y blynyddoedd dilynol. Treuliodd beth amser yn Amwythig gyda Richard Symonds ac yno y cyfarfu â Richard Baxter. Aeth i Lundain am ysbaid, ac yn eglwys Annibynnol Henry Jessey, Southwark, ym mis Mawrth 1638, fe'i daliwyd yn addoli'n anghyfreithlon. Fe'i gwysiwyd i ymddangos gerbron yr Uchel Lys, ond ffodd i Lanfair Waterdine yng nghyffiniau Henffordd lle'r oedd cylch o Biwritaniaid yn cyfarfod dan nawdd Syr Robert Harley, Brampton Friars. Erbyn 1639 yr oedd yn cydweinidogaethu â William Wroth ar eglwys newydd Llanfaches. Oherwydd y rhyfel cartref ffodd cynulleidfa'r eglwys i Fryste ac yna i Lundain gan ymuno â chynulleidfa All Hallows the Great yn Thames Street. Bu Cradoc yno am dair blynedd yn gofalu amdanynt fel gwenidog.

Trwy gydol y blynyddoedd nid anghofiodd am anghenion Cymru. Anfonodd ddeiseb i'r Senedd ym 1641 yn erfyn am bregethwyr cymwys i Gymru, a phoenodd y Senedd dro ar ôl tro am ganiatâd iddo ef a'i gyfeillion weithio yng Nghymru fel pregethwyr teithiol. Ildiodd yr awdurdodau gan roi trwydded i dri ohonynt, sef Walter Cradoc, Richard Symonds ac Ambrose Mostyn. Yr oedd yn un o'r prif symudwyr o blaid pasio *Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru* (1650). O dan y ddeddf hon yr oedd yn un o'r 25 profwr a dafolai addasrwydd pregethwyr oedd am wasanaethu yng Nghymru. Gwnaed ef yn bregethwr sefydlog ym Mrynbuga ac yn ficer Llangwm, Gwent, ym 1655. Bu farw yn 49 oed ar 24 Rhagfyr 1659, ac fe'i claddwyd yng nghangell eglwys Llangwm.